



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith penderfyniadau
ar gyfer y cam nesaf i addysg
a gofal plant: ystyriaethau,
cynlluniau a heriau

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Y dystiolaeth: yr hyn a wyddom	4
Fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyfer ysgolion a darparwyr eraill	9
Camau pellach	14

Rhagair y Gweinidog

Mae'r teulu addysg yng Nghymru wedi gweithredu gyda chryn arbenigedd, arloesedd a chyfrifoldeb wrth inni ymateb ar y cyd i COVID-19. Gwn fod miloedd o blant, athrawon, staff cymorth a rhieni a gofalwyr ledled y wlad yn colli'r profiad a'r pleser syml o ddysgu yn yr ystafell ddosbarth, gollwng a chasglu'r plant ar yr iard neu'r cyfle am sgwrs â ffrindiau.

Wrth gwrs, mae llawer o ysgolion eisoes yn cynnig darpariaeth i blant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed, ac mae gennym fantais fawr o gael llwyfan Hwb yng Nghymru, gyda phob ysgol yn cefnogi ei dysgwyr o bell. Yn yr un modd, mae'r sector AB wedi symud yn gyflym i gynigion dysgu ar-lein. Rydym yn ystyried proses raddol o ddychwelyd mwy o blant a dysgwyr eraill i addysg neu ofal plant wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mae elfen o risg yn gysylltiedig â phob opsiwn. Nid oes yr un llywodraeth yn y byd sy'n deall yn llwyr sut mae plant yn trosglwyddo'r feirws na ph'un a ydynt yn gwneud hynny yn yr un ffordd â feirysau eraill neu yn yr un ffordd ag oedolion.

Wrth inni baratoi ar gyfer yr adolygiad diwedd cylch nesaf ar ddiwedd mis Mai, mae fy swyddogion – gan weithio gyda gwyddonwyr, arbenigwyr ym maes iechyd y cyhoedd, athrawon, undebau ac awdurdodau lleol – yn ystyried yr opsiynau ar gyfer y cam nesaf hwnnw i ysgolion a darparwyr addysg eraill. Mae'r ddogfen weithio hon yn nodi ein meddylfryd presennol o ran sut y gallwn newid gweithrediadau ysgolion a darparwyr eraill dros amser mewn ymateb i COVID-19.

O ran y sector addysg, mae egwyddorion allweddol wedi'u pennu ar gyfer y cam nesaf hwnnw.

- Diogelwch a lles meddyliol, emosiynol a chorfforol dysgwyr a staff.
- Parhau i gyfrannu at yr ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â lledaeniad COVID-19.
- Ennyn hyder rhieni a gofalwyr, staff a dysgwyr – ar sail tystiolaeth a gwybodaeth – fel y gallant flaengynllunio.
- Y gallu i flaenoriaethu dysgwyr ar adegau allweddol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig.
- Cysondeb â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau, rhoi canllawiau ar waith i gefnogi mesurau megis ymbellhau, rheoli presenoldeb a chamau diogelu ehangach.

Bydd angen i ystyriaethau tebyg lywio penderfyniadau i gynyddu mynediad i leoliadau gofal plant a chwarae hefyd ac i lywio dysgu galwedigaethol ac academaidd mewn addysg bellach.

Wrth weithio drwy'r egwyddorion hyn, mae'n amlwg y bydd unrhyw newid i weithrediad ysgolion a darparwyr addysg neu ofal phlant eraill yn gymhleth, gyda nifer o ystyriaethau cymhleth a chroes. Rydym yn ystyried yr hyn sy'n digwydd ledled y byd ac mewn rhannau eraill o'r DU yn ofalus.

Mae'r ddogfen weithio hon yn cynnwys fframwaith ar gyfer ein penderfyniadau, gan adeiladu ar fy egwyddorion ar gyfer y cam nesaf. Nid un penderfyniad fydd hyn ond cyfres o benderfyniadau dros amser i gynyddu, neu os bydd angen, leihau gweithrediadau ysgolion a darparwyr eraill.

Er enghraifft, wrth ganiatáu amser i flaengynllunio, mae yna gyfres o gwestiynau cysylltiedig. Byddwn yn gweithio tuag at yr adolygiad diwedd cylch nesaf, ond gallaf hefyd warantu na fydd y 'cam nesaf' yn dechrau ganol wythnos, y bydd amser i baratoi a hyfforddi athrawon, ac y byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y gweithrediadau a'r cynhyrchion glanhau a hylendid angenrheidiol ar waith.

Gallaf warantu mai cynyddu'n raddol y bydd gweithrediadau. Nid wyf yn disgwyl y bydd ysgolion na lleoliadau addysg eraill ledled Cymru yn agor i bob dysgwr, o bob blwyddyn, drwy'r wythnos, yn y dyfodol agos.

Rhannaf y ddogfen weithio hon, a'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau, er mwyn dangos hyd a lled y materion sy'n gysylltiedig â'r cam nesaf. Rwyf am iddo ysgogi trafodaeth ac adborth ehangach gan y teulu addysg, gan gynnwys rhieni a gofalwyr, plant a pobl ifanc.

Y dystiolaeth: yr hyn a wyddom

Ar 7 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [y modelu diweddaraf](#) gan y Cell Cyngori Technegol. Mae hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl am yr hyn a ddeallir ar hyn o bryd am COVID-19 a sut y caiff ei drosglwyddo. Mae llawer o ansicrwydd o hyd ynghylch y feirws, ond gallwn bellach fanteisio ar ystod eang o gyngor a thystiolaeth arbenigol.

Y rhif R

Mae'r rhif R , sef y rhif atgynhyrchu, yn allweddol i unrhyw benderfyniad i lacio'r cyfyngiadau symud. Dyma nifer cyfartalog y bobl y mae person wedi'i heintio yn trosglwyddo'r clefyd iddynt ar ryw adeg yn ystod yr epidemig.

Os yw'r rhif R islaw 1, bydd pob achos yn arwain at lai nag un achos ychwanegol, felly dros amser, bydd nifer yr achosion yn lleihau i sero. Fodd bynnag, os yw'r rhif R uwchlaw 1, bydd nifer yr achosion yn cynyddu'n gyflymach. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod y rhif R ar gyfer COVID-19 yng Nghymru yn 0.7–0.9.

Bydd angen i unrhyw benderfyniad a wneir mewn perthynas ag ysgolion a darparwyr eraill ystyried ei effaith debygol uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y rhif R . Bydd angen i effaith unrhyw benderfyniad ar y rhif R gael ei monitro a'i gwerthuso. Mae hyn yn allweddol er mwyn ennyn hyder y cyhoedd a gallu addasu unrhyw benderfyniad os bydd angen.

Profi

Ar 13 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Profi, olrhain diogelu](#), sef strategaeth i wella prosesau cadw golwg ar iechyd. Mae dulliau olrhain cysylltiadau wedi'u defnyddio mewn gwledydd ledled y byd er mwyn cyfyngu ar ledaeniad y feirws yn y gymuned drwy dorri'r ddolen yn y gadwyn drosglwyddo, ac mae'r gwaith hwn yn parhau i fynd rhagddo.

Rôl plant o ran trosglwyddo'r feirws

Nid yw rôl plant o ran trosglwyddo'r feirws, na pha mor debygol y maent o'i ddal, yn glir eto. Mae arwyddion bod plant sydd wedi'u heintio â COVID yn dueddol o fod yn llai symptomatig ac yn dueddol o ddangos symptomau llai difrifol nag oedolion, er gwaethaf y posibilrwydd o rai cymhlethdodau difrifol prin iawn.

Yn gyffredinol, ymddengys fod plant iau (dan 11 oed) yn llai tebygol o ddal y feirws nag oedolion. Hefyd, mae'n bosibl y bydd y gyfradd trosglwyddiadau yn is ymhlith plant nag oedolion, ond mae ansicrwydd o hyd ynghylch i ba raddau y mae plant yn trosglwyddo heintiau COVID. Wrth gwrs, byddwn yn parhau i fonitro tystiolaeth a gwybodaeth wrth iddynt ddatblygu.

Tueddiadau tymor hwy

Mae'r lefelau trosglwyddo tebygol yn y tymor hwy ymhell o fod yn glir o hyd. Ar sail yr hyn a wyddom, ni allwn dybio y bydd ysgolion na darparwyr eraill yn dilyn trywydd penodol. Mae'n bosibl y bydd angen i ysgolion a darparwyr eraill leihau gweithrediadau ar adegau penodol os bydd y gyfradd trosglwyddiadau'n cynyddu'n sylweddol yn y dyfodol. Bydd angen i benderfyniadau gael eu gwneud dros amser, gan ystyried tystiolaeth sy'n newid yn llawn. Nid yw'n glir eto pa mor hir y bydd angen i'r gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol barhau ar waith. Tra bydd y gofynion hyn ar waith, bydd ysgolion a darparwyr eraill yn gyfyngedig o ran nifer y plant/dysgwyr y gallant gynnig lle iddynt ar unrhyw un adeg. Rhaid inni dybio y bydd cadw pellter cymdeithasol yn parhau i fod yn weithredol hyd y gellir rhagweld, a bydd angen i unrhyw benderfyniadau ystyried hyn.

Rydym hefyd yn ystyried ystod eang o dystiolaeth ac enghreifftiau rhyngwladol yn llawn, er mwyn ystyried sut mae systemau gwahanol wedi ymateb i achosion o darfu ar y system addysg a gofal plant, a dulliau adfer.

Cwmpas

Mae'r fframwaith penderfynu hwn yn nodi ein meddylfryd presennol ar gyfer ysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, lleoliadau gofal plant a chwarae a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol. Er bod pob un o'r sectorau hyn yn wynebu problemau a heriau penodol, maent yn rhannu'r un cwestiynau allweddol. Gall y penderfyniadau a wneir ar gyfer pob lleoliad fod yn wahanol, yn unol â'u cyd-destun: ni fydd un dull gweithredu sy'n addas i bawb.

Mae'r fframwaith hwn yn nodi'r penderfyniadau lefel uchel y bydd angen i Weinidogion eu gwneud. Caiff hyn ei gefnogi gan benderfyniadau a gweithgarwch ar bob lefel: bydd Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau lefel uchel ond mater i ysgolion a darparwyr eraill, gan weithio gydag awdurdodau lleol fel y bo'n briodol, fydd datblygu ffyrdd o weithio (yn unol â'r canllawiau clir hynny) a fydd yn galluogi plant/dysgwyr i ddychwelyd i amgylchedd diogel a chefnogol. Manylir ar lawer o hyn isod a chaiff canllawiau pellach eu darparu ar unrhyw gamau gofynnol.

Rydym wedi cyhoeddi canllaw goleuadau traffig sy'n cynrychioli camau bras fel enghraifft o sut y bydd y mesurau symud yn cael eu llacio'n raddol yng Nghymru. Mae gwneud mwy yn y cyfnod Coch presennol, neu symud y tu hwnt iddo, yn dibynnu ar gynnydd parhaus o ran rheoli lledaeniad y feirws. Yn benodol, mae angen i ni sicrhau bod dulliau olrhain cysylltiadau effeithiol ar waith i ategu ein hyder bod modd symud rhwng y cyfnodau. Ni fwriedir i'r canllaw goleuadau traffig fod yn gyflawn ond dylid ei drin fel enghraifft o waith sy'n mynd rhagddo, a dylai roi cyd-destun pellach i'r fframwaith penderfyniadau addysg a nodir yn y ddogfen hon.

Sut y byddwn yn gwneud penderfyniadau?

Wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer y penderfyniadau hyn, byddwn yn manteisio ar amrywiaeth o arbenigedd a thystiolaeth. Rydym yn cyfarfod â'r grwpiau canlynol yn rheolaidd, os nad yn wythnosol.

- **Y Cell Cyngori Technegol: yr is-grŵp plant ac addysg** – mae'r grŵp hwn yn cynnwys amrywiaeth o swyddogion Llywodraeth Cymru a chynghorwyr arbenigol i ddarparu tystiolaeth ynghylch y ffactorau a'r goblygiadau o ran iechyd a'r ffactorau a'r goblygiadau gwyddonol.
- **Grŵp rhanddeiliaid penaethiaid ac arweinwyr** – yn dwyn ynghyd grŵp cyfeirio o arweinwyr ysgolion a darparwyr eraill, o wasanaethau gofal plant i brifysgolion.
- **Grŵp rhanddeiliaid Partneriaid Cyflawni Addysg Strategol** – yn darparu cyfeiriad gan awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Estyn, sefydliadau addysg bellach a Cymwysterau Cymru.
- **Partneriaeth Undebau Llafur.**
- **Grŵp Penaethiaid Addysg Bellach.**
- **Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Gofal Plant a Chwarae** – yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector gofal plant a chwarae, Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn, awdurdodau lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd y Gymraeg.

Mae hyder rhieni/gofalwyr, plant a phobl ifanc yn ffactorau allweddol i'w hystyried. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau ein bod yn casglu eu hagweddau, eu safbwyntiau a'u barn mewn modd systematig er mwyn llywio ein penderfyniadau.

Yn ogystal, rydym yn ystyried tystiolaeth ryngwladol am ddysgu ac iechyd a lles plant. Rydym yn manteisio ar amrywiaeth o enghreifftiau rhyngwladol o ffyrdd o ymateb i achosion o darfu ar ddysgu. Er enghraifft, rydym yn ystyried arferion yn Nenmarc ynghylch defnyddio adeiladau eraill i gynyddu capasiti; golchi dwylo a glanhau yn rheolaidd; trefnu bod plant yn cyrraedd ac yn gadael ar adegau gwahanol a defnyddio marciau ar y llawr.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwaith tebygol y bydd angen ei wneud i gefnogi unrhyw benderfyniadau. Rhoddir rhagor o fanylion am hyn mewn canllawiau yn y dyfodol.

Y camau gweithredu presennol:	Paratoi ar gyfer y 'normal newydd':	Gweithio yn y 'normal newydd':
Yr hyn rydym yn ei wneud nawr.	Yr hyn y mae angen i ni ei wneud cyn y gall ysgolion a darparwyr gynyddu gweithrediadau.	Yr hyn y bydd angen i ni ei wneud pan fydd ysgolion a darparwyr yn dechrau cynyddu gweithrediadau.
Rydym wrthi'n sefydlu proses a sail dystiolaeth glir ar gyfer gwneud penderfyniadau a'u rhannu.	Byddwn yn cefnogi'r system i baratoi ar gyfer newidiadau i'r lefel presennol o weithrediadau.	Byddwn yn cefnogi'r system i weithredu dros gyfnod cyfan yr ymateb i COVID-19.
<p>Rydym yn casglu sail dystiolaeth eang er mwyn gwneud penderfyniadau hyddysg. Mae hyn yn cynnwys casglu mewnbwn gan ein grwpiau o randeiliaid allweddol.</p> <p>Mae polisi <i>Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu</i> Llywodraeth Cymru yn nodi sut y dylai'r system gefnogi dysgwyr mewn ysgolion o bell yn ystod y cyfnod hwn.</p>	<p>Byddwn yn egluro'r disgwyliadau ar gyfer ysgolion a darparwyr yn ystod y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cynnwys egluro'r amserlenni a'r camau gweithredu a argymhellir mewn ymateb i unrhyw benderfyniadau.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod seilwaith priodol ar waith i gyflawni unrhyw benderfyniad (gan gynnwys cludiant). Byddwn hefyd yn sicrhau bod prosesau monitro ac adrodd ar waith i gefnogi unrhyw benderfyniad.</p> <p>Byddwn yn darparu canllawiau lefel uchel i gefnogi ysgolion mewn perthynas ag amrywiaeth o oblygiadau ymarferol, gan gynnwys: glanhau a chyflenwadau, sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol, cynllun ystafelloedd dosbarth, amserlennu, cludiant a gwybodaeth i rieni a gofalwyr.</p>	<p>Byddwn yn rhoi canllawiau i ysgolion ar gynnal gweithrediadau yn ystod y cyfnod hwn a datblygu profiadau dysgu priodol.</p> <p>Byddwn yn monitro'r sefyllfa ac effaith unrhyw benderfyniadau yn agos, gan ymateb yn briodol.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod adnoddau profi ac olrhain ar waith i gefnogi'r gwaith.</p>

Yn parhau trosodd

Y camau gweithredu presennol:	Paratoi ar gyfer y 'normal newydd':	Gweithio yn y 'normal newydd':
<p>Mae awdurdodau lleol yn cefnogi ysgolion i gynnig darpariaeth i blant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed.</p> <p>Mae consortia rhanbarthol ac Estyn yn cefnogi ysgolion i ddatblygu a chyflwyno dysgu o bell.</p>	<p>Byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid strategol i sicrhau y caiff ysgolion a darparwyr eraill eu cefnogi i ddechrau paratoi nawr, cyn y caiff unrhyw benderfyniad ei wneud na'i rannu.</p> <p>Dylai partneriaid strategol ystyried anghenion ymarferol staff ysgolion a lleoliadau, yn ogystal â'u hanghenion o ran lles a hyfforddiant, a sicrhau y cânt eu diwallu'n briodol.</p> <p>Dylai awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion i asesu risg ac adnoddau.</p>	<p>Byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid strategol i sicrhau y caiff ysgolion a darparwyr eraill eu cefnogi'n barhaus drwy gydol y cyfnod hwn.</p> <p>Bydd awdurdodau lleol yn parhau i weithio gydag ysgolion er mwyn deall y ffordd orau o gefnogi'r ddarpariaeth i blant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed.</p> <p>Dylai awdurdodau lleol barhau i weithio gydag ysgolion i asesu a rheoli risg ac adnoddau.</p>
<p>Mae ysgolion yn cynnig darpariaeth i blant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed, ac yn darparu dysgu o bell i bawb.</p> <p>Mae sefydliadau addysg bellach yn datblygu ac yn cyflwyno dysgu o bell.</p> <p>Gall ysgolion ystyried gwersi a ddsygwyd ac arferion effeithiol mewn hybiau er mwyn llywio eu paratodau a'u harferion.</p> <p>Dylai ysgolion egluro anghenion staff a phlant/dysgwyr sy'n wynebu risg.</p>	<p>Yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, dylai ysgolion a darparwyr ddechrau paratoi ar gyfer newidiadau i weithrediadau, gan ystyried ystod eang o faterion ymarferol, gan gynnwys glanhau a chyflenwadau, sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol, hylendid, cynllun ystafelloedd dosbarth, mwy o ddefnydd o ardaloedd awyr agored, darparu amserlen wahanol i grwpiau gwahanol o blant, cludiant a gwybodaeth i rieni a gofalwyr.</p> <p>Dylai ysgolion a darparwyr hefyd ddechrau ystyried anghenion eu plant/dysgwyr a phrofiadau dysgu priodol ar eu cyfer pan fyddant yn dychwelyd: yn benodol, cefnogi iechyd a lles.</p> <p>Dylai ysgolion a darparwyr eraill asesu eu capasiti, nifer y plant sy'n debygol o fanteisio ar unrhyw ddarpariaeth ychwanegol, a'r risgiau.</p>	<p>Mae gan ysgolion a lleoliadau gynlluniau wrth gefn ar waith ar gyfer unrhyw gynnydd neu leihad mewn gweithrediadau yn y dyfodol.</p> <p>Dylai ysgolion a darparwyr eraill sicrhau eu bod yn modelu ac yn cydymffurfio â'r canllawiau ar hylendid a chadw pellter cymdeithasol cyn belled ag y bo hynny'n bosibl.</p> <p>Dylai ysgolion a darparwyr eraill sicrhau bod dysgu o bell yn cyfrannu at ddsygu 'yn yr ysgol'.</p> <p>Dylai ysgolion a darparwyr eraill barhau i fonitro a diweddarau asesiadau o risgiau a chapasiti.</p>

Fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyfer ysgolion a darparwyr eraill

Ei nod yw helpu Gweinidogion i wneud penderfyniadau am y lefel gywir o weithrediadau mewn ysgolion a darparwyr eraill bob tro y cânt eu hadolygu.

- 1. A ddylem gynyddu/lleihau gweithrediadau mewn ysgolion a darparwyr eraill?** A yw'r cyd-destun iechyd yn caniatáu neu'n gofyn am newid?
- 2. Pa grwpiau o blant/dysgwyr a ddylai fynychu'n gorfforol?** Beth yw'r lefel weithredu fwyaf priodol a hyfyw ar hyn o bryd?
- 3. Sut rydym yn bwriadu newid hyn dros amser?** A yw ein cynigion yn gynaliadwy yn y tymor hwy os bydd angen?
- 4. Sut rydym yn sicrhau y caiff staff a phlant/dysgwyr eu cadw'n ddiogel ac yn iach?** Pa fesurau lliniaru y dylid eu rhoi ar waith i sicrhau y cedwir at y rheolau o ran cadw pellter cymdeithasol a sicrhau lles meddyliol, emosiynol a chorfforol staff a phlant/dysgwyr?
- 5. Sut mae eich cynigion yn cyfrannu at yr ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â lledaeniad COVID-19?** A ydynt yn bodloni profion ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer llacio'r cyfyngiadau symud?

Wrth gwrs, caiff pob penderfyniad ei wneud gan ystyried amrywiaeth o asesiadau effaith.

1. A ddylem gynyddu/lleihau gweithrediadau mewn ysgolion a darparwyr eraill?

Bydd y penderfyniad ynghylch a ydym yn barod am newid yn dibynnu ar y rhif R , sef rhif atgynhyrchu'r feirws. Mae hyn yn hollbwysig i ddeall ein cyfle i newid: p'un a yw'r rhif R yn ddigon isel i ganiatáu cynnydd mewn gweithrediadau, neu os bydd yn dechrau codi, p'un a fydd angen lleihau gweithrediadau. Byddwn hefyd yn ystyried gallu ac adnoddau'r GIG ynghyd â'r effeithiau cymdeithasol a'r effeithiau ar les plant/dysgwyr a theuluoedd. Gall gwahaniaethau rhanbarthol ddylanwadu ar ein penderfyniadau hefyd.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r dystiolaeth iechyd hon i lywio ein tybiaethau ar gyfer y penderfyniadau eraill: sut y bydd y rheolau o ran cadw pellter cymdeithasol a'r canllawiau ynghylch unigolion sy'n wynebu risg ac unigolion sy'n gwarchod eu hunain yn effeithio ar allu ac adnoddau ysgolion a darparwyr eraill?

2. Pa grwpiau o blant/dysgwyr a ddylai fynychu'n gorfforol?

Rydym wrthi'n ystyried ystod eang o opsiynau o ran pa blant/dysgwyr a allai fynychu pan gaiff gweithrediadau eu cynyddu. Bydd hyn yn ein galluogi i flaenoriaethu grwpiau penodol o blant/dysgwyr os bydd angen.

Mewn perthynas ag ysgolion yn bennaf, gallai opsiynau posibl gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- **plant/dysgwyr difreintiedig** – byddai ysgolion ar agor yn llawn amser i'r plant/dysgwyr mwyaf difreintiedig. Byddai angen i hyn gael ei ddiffinio, ond gellid ei gapio ar ganran benodol neu ei ddiffinio mewn ffordd arall
- **grwpiau blwyddyn sy'n pontio** – byddai ysgolion ar agor ar gyfer grwpiau blwyddyn penodol sydd ar fin pontio i gyfnod allweddol yn eu dysgu. Byddai hyn yn cynnwys Blynyddoedd 6, 10 a 12, ond gallai hefyd gynnwys dosbarthiadau Meithrin i Ddosbarthiadau derbyn, Blynyddoedd 2 neu 9
- **dysgwyr ar ddiwedd cylch** – byddai hyn yn canolbwyntio ar Flynyddoedd 11 a 13. Gallai hyn gael ei ehangu i grwpiau blwyddyn eraill
- **pob plentyn/dysgwr am gyfnod llai o amser** – byddai ysgolion a darparwyr ar agor i bob plentyn/dysgwr a fyddai'n mynychu am gyfnod cyfyngedig o amser, yn dibynnu ar yr uchafswm capasiti diogel, er enghraifft un diwrnod yr wythnos. Yn yr un modd, byddai'r staff yn cylchdroi
- **y blynyddoedd cynharach** – y grwpiau blwyddyn cynharach fyddai'n mynychu gyntaf
- **plant y mae angen i'w rhieni/gofalwyr adael y cartref er mwyn mynd i'r gwaith** – byddai hyn yn canolbwyntio ar blant y gall eu rhieni/gofalwyr ddychwelyd i'r gwaith yn sgil llacio'r cyfyngiadau symud a rhieni/gofalwyr y mae angen iddynt weithio ond sydd ag ymrwymïadau gofal plant, yn enwedig rhieni sengl
- **cynyddu'r ddarpariaeth bresennol** – gan weithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion a hybiau, byddem yn annog mwy o'r rhai sydd â hawl i fynychu i wneud hynny.

O ran lleoliadau gofal plant a chwarae, bydd angen i benderfyniadau gael eu gwneud ochr yn ochr â phenderfyniadau am ysgolion, er mwyn helpu teuluoedd i fanteisio ar ofal plant cofleidiol fel y bo angen. Felly, mae angen ystyried p'un a ddylid caniatáu i leoliadau agor i bob oedran, ond gan ystyried y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol, neu ddechrau gyda phlant iau ac ymestyn y ddarpariaeth i grwpiau oedran hŷn yn raddol. Bydd y penderfyniadau hyn yn seiliedig ar ystyriaeth lawn o'r dystiolaeth, yr effeithiau tebygol ac ymgynghoriad â'r sector.

O ran addysg bellach, grŵp blaenoriaeth allweddol fydd **dysgwyr galwedigaethol** y mae angen iddynt gwblhau asesiadau ymarferol er mwyn cyflawni eu cymwysterau. At hynny, wrth wneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â dysgwyr ôl-16, byddwn yn ystyried pwysigrwydd tegwch i ddysgwyr chweched dosbarth mewn ysgolion a cholegau.

Ar hyn o bryd, diben y ddarpariaeth i blant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed yw sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cadw'n brysur. Ni fwriedir iddi gymryd lle dysgu yn yr ysgol. Fodd bynnag, o ran ysgolion, y dybiaeth yw y byddai pob un o'r opsiynau uchod, ar wahân i'r un olaf, yn galluogi plant/dysgwyr i ymgymryd â rhyw fath o brofiad dysgu, ac yn yr un modd o ran darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Caiff canllawiau eu darparu i gefnogi dysgu 'yn yr ysgol' a sicrhau bod dysgu 'y tu allan i'r ysgol' yn cefnogi hyn, a sicrhau tegwch i bob dysgwr. Mae hyn yn cynnwys y rhai hynny y gall fod angen iddynt aros gartref.

Bydd angen i'r opsiynau hyn gael eu hasesu yn erbyn amrywiaeth o ffactorau perthnasol, gan gynnwys:

- **yr effaith ar y gyfradd trosglwyddiadau** – beth yw effaith debygol yr opsiwn ar y rhif R?
- **capasiti** – pa opsiynau y gall ysgolion a darparwyr eu rhoi ar waith, gan ystyried y gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol a'r plant a'r staff y bydd angen iddynt aros gartref yn unol â'r canllawiau ynghylch hunanynysu a'r rhai sy'n wynebu risg neu'n gwarchod eu hunain?
- **yr effaith ar blant/dysgwyr** – pa opsiynau a fydd yn cael yr effaith fwyaf buddiol ar ddysgu a lles? Bydd angen i hyn gynnwys ystyriaethau ynghylch yr effaith ar gydraddoldeb a hawliau plant
- **yr effaith economaidd** – bydd mwy o amser yn yr ysgol a darpariaeth arall yn galluogi mwy o deuluoedd i ddychwelyd i'r gwaith. Bydd angen i hyn gynnwys ystyriaethau ynghylch yr effaith ehangach ar yr economi a chydraddoldeb
- **ymarferoldeb** – pa mor ymarferol yw'r opsiwn? A yw'r seilwaith ar waith i'w gefnogi?
- **priodoldeb o ran lleoliad ac ardal ddaearyddol** – pa mor briodol yw'r opsiwn ar gyfer cyfnodau/darparwyr penodol neu ardaloedd daearyddol? A ddylid delio ag unrhyw un o'r rhain mewn ffordd wahanol?

O ran lleoliadau gofal plant a chwarae, bydd gwneud penderfyniadau yn gyfochrog â'r rheini o amgylch ysgolion: cefnogi teuluoedd i gael gofal plant cofleidiol yn ôl yr angen.

3. Sut rydym yn bwriadu newid y ddarpariaeth yn unol â chapasiti?

Ni ellir gwneud unrhyw benderfyniad i newid gweithrediadau yn y byrdymor heb ystyried y tymor canolig a'r hirdymor. Rhaid i hyn ystyried sut y gallai gweithrediadau gynyddu dros amser, ond hefyd, os bydd gweithrediadau cyfyngedig yn parhau am

gyfnod hir o amser, sut y gallwn sicrhau cydraddoldeb rhwng grwpiau gwahanol o blant/dysgwyr. Mae hyn hefyd yn ein galluogi i flaenoriaethu grwpiau gwahanol o blant/dysgwyr ar adegau allweddol gwahanol, os oes angen.

Rydym wrthi'n ystyried ystod eang o opsiynau o ran sut y gellid cynyddu gweithrediadau dros amser. Gallai opsiynau posibl gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- **cyflwyno'r opsiynau mewn modd llinol** – byddem yn mabwysiadu un o'r opsiynau a nodwyd uchod ym Mhenderfyniad 2 ac yna'n mynd ati i ychwanegu neu ddileu opsiynau eraill yn unol â chapasiti. Byddai hyn yn rhoi blaenoriaeth i un grŵp yn y byrdymor
- **cylich o opsiynau gwahanol ar adegau gwahanol** – byddem yn mabwysiadu opsiynau gwahanol dros amser ar adegau gwahanol, er mwyn cefnogi grwpiau penodol o blant/dysgwyr ar adegau allweddol. Byddai hyn wedyn yn cynyddu/crebachu i gyfuno opsiynau ar unrhyw adeg benodol yn unol â chapasiti. Byddai hyn yn galluogi ysgolion/darparwyr i gydbwyso anghenion grwpiau gwahanol dros amser
- **cyfuniad o opsiynau am gyfnodau byrrach** – byddem yn cyfuno opsiynau gwahanol ond gyda phob un am gyfnod byrrach. Byddai hyn yn galluogi grwpiau gwahanol i elwa ar amser cyswllt. Byddai'r amser a roddwyd i bob opsiwn yn cynyddu/crebachu yn unol â chapasiti.

Bydd angen penderfynu ar yr opsiynau hyn o ran sut i gynyddu'r ddarpariaeth yn raddol dros amser yn erbyn amrywiaeth o ffactorau perthnasol, gan gynnwys:

- **yr effaith ar iechyd** – gan gynnwys effaith debygol yr opsiwn ar y rhif R ?
- **yr effaith ar blant/dysgwyr** – pa opsiynau a fydd yn cael yr effaith fwyaf buddiol ar ddysgu a lles?
- **capasiti** – pa ffyrdd o newid y ddarpariaeth y gall ysgolion a darparwyr eu rhoi ar waith?
- **yr effaith economaidd** – pa opsiynau a fydd yn galluogi'r nifer mwyaf o deuluoedd i ddychwelyd i'r gwaith?

4. Sut y gallwn sicrhau y caiff staff a phlant/dysgwyr eu cadw'n ddiogel ac yn iach?

Yna, bydd angen i ni ystyried pa fesurau lliniaru y dylid eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau:

- bod gan ysgolion a darparwyr y gallu a'r adnoddau o ran staff a gofod ffisegol i sicrhau y gall unrhyw staff a phlant/dysgwyr sy'n bresennol fodloni'r gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys sut y gellir defnyddio amwynderau eraill i greu mwy o le

- y caiff anghenion staff a phlant/dysgwyr o ran lles meddyliol, emosiynol a chorfforol eu diwallu
- y caiff nifer y plant/dysgwyr sy'n manteisio ar unrhyw gynigion ac effaith hynny eu monitro a'u gwerthuso. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau y gellir gwrthdroi unrhyw benderfyniad os bydd angen.

Bydd y mesurau hyn yn hollbwysig i gadw staff a phlant/dysgwyr yn ddiogel a sicrhau hyder plant/dysgwyr, staff a rhieni/gofalwyr.

5. Sut mae ein cynigion yn cyfrannu at yr ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â lledaeniad COVID-19?

Yn olaf, bydd angen i unrhyw benderfyniad gael ei ystyried a'i brofi yn erbyn y meini prawf ehangach, a nodir yn [Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: Fframwaith ar gyfer adferiad](#). Mae'r rhain wedi'u plethu drwy'r fframwaith, ond mae'n hollbwysig bod penderfyniadau'n cael eu hystyried yng nghyd-destun dull ehangach Llywodraeth Cymru i lacio'r cyfyngiadau symud, sef:

- i ba raddau y byddai llacio cyfyngiad yn cael effaith negyddol ar reoli'r feirws?
- a yw'r risg o heintio pellach sydd ynghlwm â'r mesur yn isel?
- sut y gellir ei fonitro a'i orfodi?
- a oes modd ei wrthdroi'n gyflym os oes canlyniadau anfwriadol?
- a oes mantais economaidd gadarnhaol gymharol fawr ynghlwm â'r cam?
- a yw'r cam yn cael effaith fawr ar les cymdeithasol neu seicolegol?
- a yw'r cam yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gydraddoldeb?

Camau pellach

Yn ogystal â'r fframwaith penderfynu, bydd angen ystod eang o gymorth ar ysgolion a darparwyr wrth baratoi'n ymarferol ar gyfer unrhyw newid mewn gweithrediadau, a'i roi ar waith. Bydd angen i hyn gynnwys cludiant a glanhau. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion a darparwyr eraill cyn y caiff unrhyw gyhoeddiad ei wneud er mwyn sicrhau y gellir dechrau ar y gwaith paratoi a bod ysgolion, darparwyr a'u staff yn barod am y cyhoeddiad hwnnw. Mae'r tabl ar dudalen 7 yn cynnwys rhagor o fanylion am y gwaith y bydd angen ei wneud.

Fel rhan o'r gwaith o gynllunio ar gyfer unrhyw benderfyniad, rydym yn ystyried pa addasiadau y bydd angen eu gwneud i'r fframwaith statudol er mwyn cefnogi newidiadau i weithrediadau.